**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

10 Mawrth 2022

Annwyl Weinidog,

Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, Cemegion a Phlaladdwyr

Diolch i chi am ddod i'n cyfarfod ar 17 Chwefror 2022 i roi tystiolaeth ar y Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, Cemegion a Phlaladdwyr ('y Fframweithiau'). Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad ynghylch y materion isod.

Cyffredinol

1. A allwch egluro'r broses ar gyfer penderfynu a fyddai newid polisi arfaethedig o fewn cwmpas y Fframweithiau?

2. A allwch gadarnhau a fydd newidiadau i bolisi domestig a chyfraith nad ydynt yn newid cyfraith berthnasol a ddargedwir gan yr UE o fewn cwmpas y Fframweithiau? Yn benodol, a allwch gadarnhau a fydd y Bil Aer Glân (Cymru) arfaethedig o fewn cwmpas y Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer?

3. A allwch gadarnhau na fydd y Fframwaith Ansawdd Aer yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar y darpariaethau y byddech yn eu cynnwys yn y Bil Aer Glân (Cymru)?

4. A allwch chi amlinellu eich dealltwriaeth chi o effeithiau ymarferol y Fframweithiau hyn ar arfer cymhwysedd deddfwriaethol?

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

5. A allwch roi esboniad manwl o sut mae safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru (a ymatebodd i ymgynghoriad DEFRA) wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Fframweithiau? Pa ran a chwaraeodd Llywodraeth Cymru yn y broses hon?

6. Nid yw'r crynodeb o ymatebion y rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad DEFRA wedi ei gyhoeddi eto. Beth yw eich safbwynt ar hyn, ac a ydych yn ystyried y byddai cyhoeddi'r ymatebion yn helpu i wella tryloywder?

7. Mae'r Fframweithiau yn darparu i'r llywodraethau ddefnyddio dulliau ar y cyd o ddatblygu cyfraith a pholisi. Sut y byddwch yn sicrhau nad yw hyn yn cyfyngu ar rôl y Senedd neu randdeiliaid yng Nghymru o ran llywio cyfraith a pholisi yng Nghymru?

## Adolygu a diwygio

8. Dywedoch wrth y Pwyllgor y bydd y Senedd a phartneriaid allanol yn cael cyfle i ymgysylltu â'r broses adolygu ar gyfer y Fframweithiau.

- Ai'r bwriad yw y bydd yr holl bartïon yn cytuno ar ddull cyffredin o ymgysylltu Seneddol yn y broses adolygu?
- Sut ydych chi'n rhagweld y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol?
- Pam nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Fframweithiau?

## Datrys anghydfodau

9. A allwch gadarnhau ar ba gam y byddwch yn hysbysu'r Pwyllgor/y Senedd am anghydfodau o dan y Fframweithiau, a sut byddwch yn gwneud hynny?

## Deddf Marchnad Fewnol y DU

10. Dywedasoch na fyddai Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar y Fframweithiau ac aethoch ymlaen i awgrymu eu bod yn diystyru'r Ddeddf. A allwch ddarparu eglurhad pellach am hyn?

## Safonau rheoleiddio ac adolygiad o gyfraith a ddargedwir gan yr UE

11. A allwch gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw i fyny â safonau'r UE ar gemegau ac ansawdd aer?

12. Sut ydych chi'n ymateb i'r awgrym nad yw'r DU wedi cadw i fyny â rheoliadau newydd REACH yr UE, a bod cyflymder rheoleiddio o dan REACH y DU yn arafach?

13. Mae'r UE yn y broses o adolygu REACH fel rhan o'i Strategaeth Cemegau ar gyfer Cynaliadwyedd newydd. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru a/neu y pedair gwlad i wneud yr un peth?

14. Sut ydych chi'n ymateb i bryderon bod safonau rheoleiddio yn y DU yn debygol o fod yn is nag yn yr UE, o leiaf yng nghamau cynnar rhaglen REACH y DU? Beth yw goblygiadau hyn?

15. Dywedasoch y byddai unrhyw gynigion ar gyfer dadreoleiddio yn Lloegr sy’n deillio o Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith a ddargedwir gan yr UE yn cael eu trafod drwy’r Fframweithiau. Fe wnaethoch awgrymu bod y Fframweithiau yn cynnig amddiffyniad rhag Llywodraeth y DU yn gosod dadreoleiddio yng Nghymru (neu’r gwledydd datganoledig eraill). A allwch ddarparu eglurhad pellach am hyn?

### Rhwymedigaethau rhyngwladol

16. Dywedasoch fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sedd mewn rhai grwpiau rhyngwladol. A allwch ddarparu rhestr o'r grwpiau hyn i helpu'r Pwyllgor i ddeall y cyfleoedd posibl y mae'r Fframweithiau yn eu cynnig i Lywodraeth Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn **6 Ebrill 2022**, fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.